

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol ac awdurdodi ei chyhoeddi yn unol â gofynion Safonau Iaith Cyngor Gwynedd.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor drwy Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ni adrodd ar weithrediad y Safonau yn flynyddol, gan gyhoeddi'r adroddiad ar wefan gorfforaethol y Cyngor erbyn 30 Mehefin.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 7:RHEOLAETH STAD MANDDALIADAU'R CYNGOR

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drwy:

- Gefnogi'r Aelod Cabinet i sefydlu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau Sirol gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach i gynorthwyo'r Aelod Cabinet ynglŷn â'i swyddogaethau rheolaeth y stad manddaliadau
 - Cyfeirio unrhyw warged a ddaw o'r stad yn y dyfodol, sydd uwch law y swm sydd eisoes yn rhan o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth ar hyn o bryd, gaei ei ail fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau, gan ddefnyddio cyfrif masnachol a chronfa wedi ei neilltuo i'r perwyl.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar yr 13 Rhagfyr bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drafod adroddiad a oedd yn manylu ar egwyddorion a threfniadau rheoli Stad Manddaliadau'r Cyngor. Yn dilyn y drafodaeth daeth y Pwyllgor Craffu i'r casgliadau canlynol:

- Sefydlu un Panel ymgynghorol Manddaliadau ar draws y Sir gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach
- Ystyried os oes buddiannau o sefydlu cwmni i reoli'r Manddaliadau yn y dyfodol
- Cadw'r adnodd staff dros dro
- Y dylai unrhyw warged, tu hwnt i'r ffigur sydd wedi ei glustnodi, gael ei ail fuddsoddi yn y stad.

Gofynnwyd i'r Cabinet i ystyried casgliadau'r Pwyllgor Craffu a phenderfynu sut y dylai'r Cyngor weithredu ymhellach.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 8:ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2018/19

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 ac argymhell i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 9:POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN GWYNEDD

PENDERFYNIAD

Yn ddarostyngedig i addasu geiriad paragraffau 2.23 i 2.25 i sicrhau fod gallu sefydliad i weithredu fel ymddiriedolwr ymgeiswyr 6-17 oed yn eglur, cymeradwywyd Polisi Gosod Tai Cyffredin newydd o osod tai cymdeithasol yn seiliedig ar adlewyrchu anghenion ymgeiswyr drwy eu rhoi mewn band yn hytrach na dyrannu pwyntiau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2012 sefydlwyd Partneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd er mwyn creu cofrestr tai cyffredin a gweithredu polisi gosod tai cyffredin ar gyfer mynediad i eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd. Mae'r Bartneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd yn awyddus i symleiddio'r drefn o osod tai cymdeithasol drwy weithredu system haws i'w ddeall a symleiddio'r drefn ymgeisio.

Yn 2018 bu i'r Bartneriaeth gomisiynu arolwg annibynnol o drefniadau gosod tai a oedd yn cynnwys rôl y Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd yn ogystal ag adrannau gosod tai yn Grŵp Cynefin, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Tai Gogledd Cymru. Un o brif ddeilliannau'r arolwg oedd cadarnhau'r argymhelliad fod angen gwella a symleiddio'r broses i'r cwsmer

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 10:STRATEGAETH TAI - DYRANIAD ARIANNOL AR GYFER 2019/20

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo rhyddhau £1.25miliwn o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor ar gyfer y tri cynllun a nodir yn Atodiad 1 ar gyfer 2019/20.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Gwasanaeth Tai ar fin gorffen ymgynghori ar y Strategaeth Tai arfaethedig a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y strategaeth yn amlinellu blaenoriaethau a chynllun gwariant ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Yn wyneb yr angen i osgoi colli grantiau a'r angen i barhau gyda chynlluniau presennol mae angenrheidiol cadarnhau dyraniad arian yn awr fel bod modd eu cyflawni yn 2019/20.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	25 Mehefin 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Gorffennaf 2019

PWNC

Eitem 11:ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB 2018/19

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac i nodi gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Mae'r Adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith sydd yn mynd rhagddo yn y maes cydraddoldeb, fel canlyniad i Gynllun Cydraddoldeb 2016-20 ac yn fwy eang.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
